Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cygor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# IS-BWYLLGOR CRAFFU (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET

## 2.00 PM DYDD MAWRTH, 15 TACHWEDD 2022

## CYFARFOD TIMAU MICROSFT/ CYFARFOD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGORHYBRID

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

Caiff y cyfarfod hwn ei recordio i'w ddarlledu drwy Safle Rhyngrwyd y Cyngor. Drwy gymryd rhan rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r defnydd posibl o'r delweddau hynny a'r recordiadau sain at ddibenion hyfforddi.

**<u>Rhan 1</u>**

1. Cyhoeddiad y Cadeirydd
2. Datganiadau o fuddiannau
3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 8)*
4. Craffu Cyn Penderfynu
   - Dethol eitemau priodol o is-agenda (Polisi ac Adnoddau) y Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir is adroddiadau'r Cabinet ar gyfer yr Aelodau Craffu)
5. Blaenraglen Waith 2022/23 *(Tudalennau 9 - 10)*
6. Eitemau brys
   *(Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972)*
7. Mynediad i gyfarfodydd

*Mynediad i gyfarfodydd i benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r eitem ganlynol yn unol ag Is-adran 100a(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.*

**Rhan 2**

8. Craffu Eitem/Eitemau Preifat Cyn Penderfynu
   - Dethol eitemau priodol o is-agenda (Polisi ac Adnoddau) y Cabinet Preifat ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir is adroddiadau'r Cabinet ar gyfer yr Aelodau Craffu)

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2022**

**Aelodaeth y Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **Y Cynghorydd P.Rogers**

**Is-gadeirydd:** **C.James**

**Cynghorwyr:** C.Galsworthy, R.G.Jones, R.Phillips, S.Pursey, S.H.Reynolds, A.J.Richards a/ac C.Phillips

**Nodiadau:**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad*

*ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

(3) *Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

(4) *Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

(5) *Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

**IS-BWYLLGOR CRAFFU (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET**

**(Microsft Teams Meeting/ Hybrid Meeting in Council Chamber)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 4 Hydref 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.James** |
| **Cynghorwyr**: | R.Phillips, S.Pursey, S.H.Reynolds, A.J.Richards a/ac C.Phillips |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, J.Woodman-Ralph, H.Jones, C.Owen, R.Headon a/ac J.Stevens |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr S.K.Hunt, S.A.Knoyle a/ac A.Llewelyn |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

2. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Adroddiad Blynyddol 2021-2022 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Derbyniodd yr aelodau Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2021-2022 i'w ystyried cyn ei gyhoeddi yn unol â gofynion statudol, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Holodd yr Aelodau am ganlyniad y tri Archwiliad Mewnol a gwblhawyd mewn perthynas â'r Asesiadau Effaith Integredig. Gofynnwyd pa hyfforddiant oedd yn mynd i gael ei ddarparu, beth oedd y materion blaenorol gydag asesiadau effaith integredig a oedd wedi arwain at hyfforddiant pellach ac a fyddai angen hyfforddiant ar aelodau. Eglurodd swyddogion fod hyfforddiant wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i swyddogion yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf ac y byddai aelodau'n derbyn hyfforddiant yn eu rôl benodol o fewn

asesiadau effaith integredig. Nodwyd mai'r pryder yn bennaf oedd cwblhau Asesiadau Effaith Integredig mewn modd amserol.

Tynnodd y pwyllgor sylw at yr wybodaeth gan Estyn mewn perthynas ag Aflonyddu Rhywiol mewn Ysgolion. Roedd yr aelodau'n deall bod y cwricwlwm ar gyfer ysgolion cynradd yn ymdrin â'r pwnc hwn mewn sesiynau hyfforddi. Fodd bynnag, nododd yr aelodau fod y pryder o ran cydraddoldeb a blaengynllunio mewn perthynas â'r ysgolion uwchradd. Gofynnodd y Pwyllgor felly i'r Cadeirydd Addysg, Sgiliau a Lles sicrhau bod y Pwyllgor yn ystyried sut yr eir i'r afael â'r mater hwn mewn ysgolion uwchradd.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet

<u>Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2022</u>

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer 2021-2022 i'r Aelodau, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Trafodwyd bod bwriad o fewn y strategaeth i gynhyrchu rhestr o eiriau/ymadroddion i'w defnyddio mewn cyfarfodydd gan y di-Gymraeg i annog y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd/ymadroddion. Fodd bynnag, teimlwyd bod hyn wedi datblygu'n organig dros amser, gan leihau'r angen uniongyrchol am restr 'swyddogol'. Nodwyd y byddai hyn yn ddefnyddiol i aelodau a gofynnwyd i restr gael ei chynhyrchu a'i nodi yn nodiadau briffio'r Cadeirydd.

Awgrymodd yr aelodau, wrth adolygu'r strategaeth sydd i ddod, y dylid gwahaniaethu'n glir rhwng rolau a chyfrifoldebau o fewn yr awdurdod a chyda'r partneriaid.

Trafodwyd amserlen adrodd y Strategaeth. Nodwyd nad oes unrhyw beth wedi'i nodi yn Safonau'r Gymraeg o ran y cyfnodau adrodd, maen nhw ond yn datgan bod cynllun strategol 5 mlynedd i'w gynhyrchu a'i gyhoeddi. Fodd bynnag, mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi blaenoriaethu darparu adroddiadau blynyddol sy'n cyd-fynd â therfynau amser corfforaethol eraill.

Holodd yr aelodau ynghylch pwynt 1.2.3 'Ystyried effeithiau datblygiadau tai newydd ar dwf addysg Gymraeg neu'r effaith ar gymunedau lle siaredir Cymraeg', yn y strategaeth gan holi ynghylch

y cynnydd. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai angen iddynt drafod â'r swyddog perthnasol a darparu ymateb y tu allan i'r cyfarfod.

Holwyd hefyd ynghylch pwynt 3.1.6 'Sicrhau bod y gostyngiad yng nghanran siaradwyr Cymraeg yng Nghwm Tawe yn gyfyngedig, gyda chynllun gweithredu wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer yr ardal a gweithio ochr yn ochr â Thŷ'r Gwrhyd i effeithio'n strategol ar yr ardal.' Nodwyd mai ychydig o gynnydd a wnaed ar hyn a gofynnwyd beth oedd y rhesymeg dros yr ychydig gynnydd a wnaed. Cadarnhaodd y swyddogion y byddent yn casglu ymateb gan y Fforwm Iaith sy'n gyfrifol am hynny. Byddai'r ymateb yn cael ei gylchredeg i'r pwyllgor.

Cadarnhaodd y swyddogion y byddai'r aelodau'n cael cyfle i ail-edrych ar y strategaeth gan y byddai cyfnod adolygu.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 3. BLAENRAGLEN WAITH

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

## 4. EITEM FRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

# Cabinet (Policy and Resources) Scrutiny Sub Committee

## (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2022** | | |
| 4th October | Please see Cabinet FWP for items | |
| | | |
| 15th November | Please see Cabinet FWP for items | |
| | | |
| **2023** | | |
| 24th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 7th March | Items to be confirmed | |
| | | |
| 18th April | Items to be confirmed | |
| | | |





Eitem yr Agenda5

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag